

Information about school meals, school holidays and other school essentials

There have been a number of communications over recent weeks about school meals and other school essentials, and as the term draws to a close it may be useful to have this information all in one place.

Eligible Free School Meals payments over the holidays

Eligible Free School Meals (eFSM) are provided to all pupils whose parents/carers are eligible to this benefit through an income assessment and they remain eligible for as long as they meet the eligibility criteria.

Due to the decision made by Welsh Government, Flintshire County Council will no longer be making the weekly eFSM payments over the holidays. Any queries regarding why the eFSM provision is no longer available should be directed to Welsh Government.

The Council is committed to taking action so children can eat well during the summer holidays and will be working in collaboration with Aura Wales to fund packed lunches for children who attend their Fit, Fed and Read activities. The sessions will run for five weeks from July 24 until August 25 from Monday to Friday at different locations across Flintshire. For further details please contact Josh at josh.mcewan@aura.wales

Food and Fun

Food and Fun is a Welsh Government funded programme, delivered through eligible schools during the summer holidays. A number of Flintshire schools are taking part and pupils attending will receive a nutritious lunch. A list of Flintshire schools taking part can be found here <https://www.wlga.wales/food-and-fun-school-holiday-enrichment-programmelf> Please speak to your school directly if you need more information.

Universal Free School Meals

Universal Free School Meals (UPFSM) is the Welsh Government's initiative which will see all children of primary school age receiving a free school meal by 2024, regardless of income. Since 2022 UPFSM has been rolled out to Reception and Years 1 and 2 pupils in all primary schools across Flintshire. From September 2023 this will be extended to include Year 3 and 4 pupils and will be followed by Years 5 and 6 in April 2024. There is no need to apply or register.

School Essentials Grant (formerly Uniform Grant)

This year we are trying to improve the process for claiming a School Essentials Grant (formerly Uniform Grant). We are hoping to reduce the need for form filling, and speed up the process of issuing the payments, therefore enabling the majority of parents and guardians to receive the payment before the end of July.

These payments will be issued in respect of children where the parent or guardian is able to answer YES to ALL of following questions;

- Are your children in receipt of eFSM?
- Are your children in Year 1 or above?
- Have you been receiving payments in lieu of eFSM during the school holidays?
- Did you receive a School Essentials Grant (formerly known as Uniform Grant) between 1st July 2022 and 30th June 2023?

If you answer YES to ALL of the questions above, then you do not need to apply for a School Essential Grant this year, as the payments will be issued automatically by 30th July 2023. If you have not received the payment by 30th July 2023, please email freeschoolmeals@flintshire.gov.uk to advise the payment has not been received.

If your child is entering reception, is moving from a school outside of Flintshire, or your circumstances have changed meaning you are now eligible for Free School Meals and a School Essential Grant, you will need to complete an application. This form can be found on Flintshire's website by searching for 'Free School Meals' or by typing in the short URL www.flintshire.gov.uk/FSM

Gwybodaeth am brydau Ysgol, gwyliau'r ysgol a hanfodion eraill ynglŷn â'r ysgol

Mae yna sawl gohebiaeth wedi bod dros yr wythnosau diwethaf yn ymwneud â phrydau ysgol a hanfodion eraill yn ymwneud â'r ysgol, ac wrth i'r tymor dynnu tua'i derfyn fe all fod yn ddefnyddiol i gael y wybodaeth hon i gyd mewn un lle.

Taliadau i'r rhai sy'n Gymwys am Brydau Ysgol am Ddim dros y gwyliau

Caiff Prydau Ysgol am Ddim i'r rhai sy'n Gymwys eu darparu i'r holl ddisgyblion y mae eu rhieni/gofalwyr yn gymwys i'r budd-dal hwn drwy asesiad incwm ac maent yn parhau'n gymwys cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

O ganlyniad i benderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru, ni fydd Cyngor Sir y Fflint bellach yn gwneud taliadau i'r rhai sy'n Gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim dros y gwyliau. Dylai'r holl ymholiadau ynglŷn â pham nad yw'r ddarpariaeth bellach ar gael i'r rhai sy'n Gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gymryd camau fel y gall plant fwyta'n dda yn ystod gwyliau'r haf a bydd yn cydweithio gydag Aura Cymru i ariannu pecynnau bwyd i blant sy'n mynychu eu gweithgareddau Ffitrwydd, Bwyd a Darllen. Bydd y sesiynau'n rhedeg am bum wythnos o 24 Gorffennaf tan 25 Awst o ddydd Llun i ddydd Gwener mewn gwahanol leoliadau ar draws Sir y Fflint. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Josh yn josh.mcewan@aura.wales

Bwyd a Hwyl

Mae Bwyd a Hwyl yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gaiff ei ddarparu drwy ysgolion cymwys yn ystod gwyliau'r haf. Mae nifer o ysgolion Sir y Fflint yn cymryd rhan a bydd y disgyblion sy'n mynychu yn derbyn cinio maethlon. Mae'r rhestr o ysgolion Sir y Fflint sy'n cymryd rhan ar gael yma: <https://www.wlga.cymru/food-and-fun-school-holiday-enrichment-programme>. Siaradwch â'ch ysgol yn uniongyrchol os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi.

Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant yr Ysgolion Cynradd

Menter Llywodraeth Cymru yw Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant yr Ysgolion Cynradd a fydd yn golygu y bydd pob plentyn o oed cynradd yn derbyn prydau ysgol am ddim erbyn 2024, waeth beth fo'u hincwm. Ers 2022 mae Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant yr Ysgolion Cynradd wedi ei gyflwyno i ddisgyblion y dosbarthiadau Derbyn a Blynnyddoedd 1 a 2 yn yr holl ysgolion cynradd ar draws Sir y Fflint. O fis Medi 2023 bydd hyn yn cael ei ehangu i gynnwys disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ac yn dilyn hyn bydd Blynnyddoedd 5 a 6 yn Ebrill 2024. Nid oes angen ymgeisio na chofrestru.

Grant Hanfodion Ysgol (y cyn Grant Gwisg Ysgol)

Eleni, rydym yn ceisio gwella'r drefn o wneud cais am Grant Hanfodion Ysgol (y cyn Grant Gwisg Ysgol). Rydym yn gobeithio lleihau'r angen i lenwi ffurflenni a chyflymu'r broses o wneud taliadau, fel bod mwyafrif y rhieni a gwarcheidwaid yn gallu cael y grant cyn diwedd mis Gorffennaf.

Bydd y taliadau hyn yn cael eu rhoi i blant y mae eu rhieni neu warcheidwaid yn gallu ateb YDYN/DO i BOB un o'r cwestiynau canlynol;

- A yw eich plant yn cael Prydau Ysgol am Ddim?
- A yw eich plant ym Mlwyddyn 1 neu uwch?
- Ydych chi wedi bod yn cael taliadau yn lle Prydau Ysgol am Ddim yn ystod gwyliau'r ysgol?
- Gawsoch chi Grant Hanfodion Ysgol (y cyn Grant Gwisg Ysgol) rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023?

Os mai YDYN/DO yw'r ateb i BOB un o'r cwestiynau uchod, nid oes angen i chi ymgeisio am Grant Hanfodion Ysgol eleni, gan y bydd y taliadau'n cael eu gwneud yn awtomatig erbyn 30 Gorffennaf 2023. Os na fyddwch wedi cael y taliad erbyn 30 Gorffennaf 2023, anfonwch e-bost at freeschoolmeals@siryfflint.gov.uk i roi gwybod am hynny.

Os yw eich plentyn yn dechrau yn y dosbarth derbyn, yn symud o ysgol y tu allan i Sir y Fflint, neu os yw eich amgylchiadau wedi newid sy'n golygu eich bod bellach yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a Grant Hanfodion Ysgol, byddwch angen cwblhau cais. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan Sir y Fflint drwy

More information about help with the cost of living can be found by following the links below:

[Get help with the cost of living | GOV.WALES](#)

[Here to help with the cost of living | GOV.WALES](#)

[Flintshire County Council Cost of Living Hub](#)

chwilio am 'Prydau Ysgol am Ddim' neu deipio'r URL byr
www.flintshire.gov.uk/FSM

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chymorth gyda chostau byw drwy ddilyn y dolenni isod:

[Cael help gyda chostau byw | LLYW.CYMRU](#)

[Yma i helpu gyda chostau byw | LLYW.CYMRU](#)

[Canolbwynt Costau Byw Cyngor Sir y Fflint](#)